

51 Ward Llanismel, Uned Polisi Gogledd Glanyfferi

51.1 Disgrifiad o'r Ardal

Uned Polisi Gogledd Glanyfferi yw'r rhan o'r pentref i'r gogledd o Heol Portway a'r orsaf reilffordd.

Mae hon yn ardal wahanol yn hydrolegol i Uned Polisi De Glanyfferi.

Mae Glanyfferi yn bentref arfordirol ar aber afon Tywi lle mae'r rheilffordd yn ffurfio arglawdd rhwng yr afon a'r aber. Mae'r Brif Afon Nant Melin y Cwm ar ochr ogleddol y pentref ac mae tir uchel y tu ôl i'r pentref i'r dwyrain.

51.2 Pam y mae'r ardal hon yn Uned Polisi Perygl Llifogydd?

Mae'r Map Llifogydd ar gyfer Dŵr Wyneb wedi'i ddiweddarau (Asiantaeth yr Amgylchedd, 2013) yn nodi'r ardal hon fel un sydd mewn perygl llifogydd. Mae'r mapiau llifogydd o ddŵr wyneb hyn yn ddefnyddiol o ran nodi'r perygl llifogydd o gyrsiau dŵr bach.

Mae nifer o ffynonellau llifogydd i'r ardal hon; o Brif Afon Nant Melin y Cwm, o ddŵr wyneb o'r tir uchel, gyda dalgylch o ryw 50ha, ac o'r llanw o'r aber.

Er mai dim ond ar lifogydd o gyrsiau dŵr cyffredin a dŵr wyneb mae'r Map Llifogydd ar gyfer Dŵr Wyneb wedi'i ddiweddarau yn edrych, mae angen edrych ar ystyried eu rhyngweithiad â'r brif afon a'r llanw.

Mae gan yr eiddo isaf yn yr ardal hon lefelau daear o'u cwmpas o 4.1m uwchben datwm ordnans ac maent ymysg yr anheddau isaf yn Sir Gaerfyrddin. Pan edrychir ar hyn yn erbyn lefelau'r llanw ar gyfer Glanyfferi, gellir gweld y bydd atal llifogydd yn heriol:

MHWS	HAT	T1	T10	T50	T100	T200
4.1m uwchben datwm ordnans	5.1m uwchben datwm ordnans	5.00m uwchben datwm ordnans	5.25m uwchben datwm ordnans	5.43m uwchben datwm ordnans	5.51m uwchben datwm ordnans	5.58m uwchben datwm ordnans

Mae'r Gofrestr Cymunedau mewn Perygl yn dangos 3 eiddo mewn perygl llifogydd o ddŵr wyneb, 0 mewn perygl llifogydd o afonydd a 98 mewn perygl llifogydd o'r llanw.

Mae unrhyw gynllun posibl yn debyg o fod yn ddrud a galw am bwmpio.

51.3 Enghreifftiau o lifogydd

- Llifogydd rheolaidd ar y ffordd i mewn i Lanyfferi oherwydd i'r brif afon lifo dros ei glannau
- Llifogydd yng Nglan Morfa Ionawr 2013
- Llifogydd yng Nglan Morfa ym mis Hydref 2018 oherwydd cyfuniad o'r brif afon a'r llanw
- Llifogydd yng Nglan Morfa oherwydd, fe gredir, problemau Dŵr Cymru gyda gorsaf bwmpio
- Llifogydd o ddŵr wyneb yn y Capel ar Deras Eva
- Llifogydd o ddŵr wyneb yng Nglan Tywi gyda dŵr yn llifo oddi ar dir uwch

51.4 Gwaith cyfalaf ar amddiffynfeydd rhag llifogydd wedi'i gyflawni gan Gyngor Sir Caerfyrddin

Dim

51.5 Gwaith cyfalaf ar amddiffynfeydd rhag llifogydd wedi'i gyflawni gan sefydliadau partner

Carthu Nant Melin y Cwm o dro i dro gan CNC.

51.6 Asedau amddiffyn rhag llifogydd

Y llinell reilffordd yw'r prif ased amddiffyn rhag llifogydd sy'n atal llifogydd o'r llanw.

Nid yw Cyngor Sir Caerfyrddin yn cynnal a chadw unrhyw asedau.

51.7 Gwaith a chynnal a chadw rheolaidd

Dim

51.8 Gwaith arfaethedig yn y dyfodol

O gofio cymhlethdodau'r man hwn, mae angen trafod gyda CNC, National Rail a'r gymuned leol ynghylch y potensial i reoli llifogydd.

Bydd codiad yn lefel y môr yn arwain at lifogydd mwy difrifol ac amlach.

51.9 Perygl llifogydd

51.9.1 Map 1: Cyfanswm eiddo

Mae Map 1 drosodd yn dangos data ar gyfanswm yr eiddo sydd mewn perygl llifogydd. Gall y cyfanswm eiddo gynnwys anheddau, garejys, mangreoedd masnachol, mangreoedd diwydiannol a strwythurau tebyg.


51.9.2 Map 2: Anheddau a Gwasanaethau

Mae Map 2 isod yn dangos data ar yr eiddo preswyl a'r gwasanaethau sydd mewn perygl llifogydd.

51.9.3 Map 3: Cofrestr Cymunedau mewn Perygl

Dyma'r gwaith mapio llifogydd diweddaraf gan Lywodraeth Cymru. Mae'r set ddata hon yn dangos yr holl eiddo sydd mewn perygl o lifogydd dŵr wyneb mewn digwyddiad storm gyda thebygolrwydd o 1 mewn 100.



	Nifer yr unedau a nodir fel rhai mewn perygl llifogydd		
	Digwyddiad storm gyda thebygolrwydd o 1 mewn 30	Digwyddiad storm gyda thebygolrwydd o 1 mewn 100	Digwyddiad storm gyda thebygolrwydd o 1 mewn 1000
Map 1 Cyfanswm eiddo	9	17	44
Map 2 Anheddau a Gwasanaethau	4	10	31
Map 3 Cofrestr Cymunedau mewn Perygl	Amh.	3 o ddŵr wyneb 0 o afonydd 98 o'r llanw	Amh.



Map 1 - Pob eiddo
Allwedd

- | | | |
|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------|
| Uned Polisi | Map Llifogydd ar gyfer Dŵr Wyneb wedi'i ddiweddarau Q30
Amlinell llifogydd dŵr wyneb
Tebygolrwydd digwyddiad stom 1 mewn 30 | Q30 Pob dosbarth eiddo
Dyfnlder llifogydd 150mm neu fwy |
| Map Llifogydd ar gyfer Dŵr Wyneb wedi'i ddiweddarau Q100
Amlinell llifogydd dŵr wyneb
Tebygolrwydd digwyddiad stom 1 mewn 100 | Q100 Pob dosbarth eiddo
Dyfnlder llifogydd 150mm neu fwy | Q1000 Pob dosbarth eiddo
Dyfnlder llifogydd 150mm neu fwy |
| Map Llifogydd ar gyfer Dŵr Wyneb wedi'i ddiweddarau Q1000
Amlinell llifogydd dŵr wyneb
Tebygolrwydd digwyddiad stom 1 mewn 1000 | | |


Ward Llanismel
Uned Polisi Gogledd Glanfferi



Map 2 - Anheddau a Gwasanaethau

Allwedd

- | | | | |
|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------|
| Uned Polisi | Map Llifogydd ar gyfer Dŵr Wyneb wedi'i ddiweddarau Q30
Amlinell llifogydd dŵr wyneb
Tebygolrwydd digwyddiad stom 1 mewn 30 | Q30 - Anheddau
Dyfnlder llifogydd 150mm neu fwy | Q30 - Gwasanaethau
Dyfnlder llifogydd 150mm neu fwy |
| Map Llifogydd ar gyfer Dŵr Wyneb wedi'i ddiweddarau Q100
Amlinell llifogydd dŵr wyneb
Tebygolrwydd digwyddiad stom 1 mewn 100 | Q100 - Anheddau
Dyfnlder llifogydd 150mm neu fwy | Q100 - Gwasanaethau
Dyfnlder llifogydd 150mm neu fwy | |
| Map Llifogydd ar gyfer Dŵr Wyneb wedi'i ddiweddarau Q1000
Amlinell llifogydd dŵr wyneb
Tebygolrwydd digwyddiad stom 1 mewn 1000 | Q1000 - Anheddau
Dyfnlder llifogydd 150mm neu fwy | Q1000 - Gwasanaethau
Dyfnlder llifogydd 150mm neu fwy | |



Map 3 - Cofrestr Cymunedau mewn Perygl

